Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Iau, 6 Awst 2009**

Teitl: Myfyrwyr yng Nghymru'n mynegi boddhad yn y profiad myfyriwr

Mae arolwg blynyddol yn dangos bod boddhad cyffredinol myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru'n parhau mymryn uwchlaw'r ffigur a gyflawnwyd ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Dengys canlyniadau o'r pumed Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) blynyddol fod 83% o ymatebwyr yng Nghymru yn fodlon â'u cwrs.

Roedd canlyniadau o AMC 2009, a wnaeth ystyried barn dros 12,000 o fyfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru, hefyd yn dangos gwelliant o ran cymorth academaidd a datblygiad personol.

Roedd myfyrwyr pynciau a noddir gan y GIG yn arbennig o fodlon, gydag 87% ohonynt yn fodlon ag ansawdd eu cwrs, ac 85% ohonynt yn fodlon â'u lleoliadau ymarfer, o gymharu ag 83% yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

Cwestiynau		**Cymru 2008**	**Y DU 2009**	**Cymru 2009**
		% yn cytuno		
1-4	Yr addysgu ar fy nghwrs	83	83	83
5-9	Asesu ac adborth	63	64	65
10-12	Cymorth academaidd	75	74	76

13-15	Trefn a rheoli	74	72	73
16-18	Adnoddau dysgu	81	81	80
19-21	Datblygiad personol	78	78	79
22	Boddhad cyffredinol	83	82	83

Mae'r canlyniadau ar gyfer asesu ac adborth wedi cynyddu tri phwynt canran ers cychwyn yr arolwg yn 2005, er mai'r rhain yw'r isaf, tra bod adnoddau dysgu a chymorth academaidd hefyd wedi cynyddu bwynt canran dros y pum mlynedd.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol wedi gallu cadarnhau lefel uchel y boddhad ag addysg uwch yng Nghymru, yn annibynnol.

"Mae prifysgolion yn deall pwysigrwydd cynnig profiad cyfan i fyfyrwyr, o gynnig addysgu rhagorol i adnoddau dysgu ymarferol. Byddwn yn bwrw golwg ar sut gall ein gwaith gyda'r sefydliadau Addysg Uwch (AU) yng Nghymru – er enghraifft drwy ariannu er mwyn annog dysgu gan ddefnyddio technolegau – adeiladu ar y canlyniadau cymeradwy hyn er mwyn gwneud y profiad myfyrwyr yng Nghymru yn well fyth."

Meddai Greg Walker, Cyfarwyddwr dros dro Addysg Uwch Cymru: "Mae'r canlyniadau hyn yn cadarnhau ymrwymiad parhaus ein prifysgolion unwaith eto i gynnig profiad o'r ansawdd uchaf i fyfyrwyr. Maent yn cynnig tystiolaeth bellach o'r adenillion sylweddol a wna prifysgolion ar fuddsoddiad y Cynulliad yn y sector AU".

Meddai Katie Dalton, Llywydd UCMC: "Mae UCMC yn croesawu canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol eleni, yn arbennig y gwelliant sylweddol mewn asesu ac adborth mewn sefydliadau yng Nghymru, er fod yno angen am gryn lawer o waith pellach yn y maes hwn.

“Bydd UCMC yn parhau i weithio'n glòs gyda myfyrwyr a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i sicrhau y caiff ansawdd a safonau eu gwella ymhellach. Mae hefyd angen i sefydliadau addasu i amrywioldeb cynyddol corff y myfyrwyr, yn ogystal â sicrhau fod materion academaidd, megis gosod amserlenni dibynadwy yn gynnar yn y flwyddyn, y cael eu cydnabod fel arfau hanfodol wrth fynd ati i wneud addysg yn hygyrch i bawb."

Bydd data’r AMC ar gael ar Unistats.com, sy’n helpu myfyrwyr sy’n ymchwilio i fynediad i addysg uwch i gymharu gwybodaeth am bynciau a sefydliadau gwahanol.

Roedd yr arolwg yn cynnwys myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac yn 12 o golegau’r Alban.

Nodiadau

Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) – cefndir

1. Mae’r canrannau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn i’r wasg yn ymwneud â myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda sefydliadau addysg uwch Cymru.

2. Mae data’r AMC ar gael ar wefan HEFCE yn Learning & teaching/Quality assurance/National Student Survey/TQI data.

3. Mae gwefan Unistats (www.unistats.com) yn rhoi data ar yr holl fyfyrwyr yn yr arolwg, a bydd ar gael ar ddiwedd mis Medi 2009.

4. Mae'r AMC yn cynnwys myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, 12 o golegau'r Alban a Phrifysgol annibynnol Buckingham.

5. Mae'r arolwg yn dangos bod graddfa boddhad cyffredinol (Cwestiwn 22 yr arolwg) myfyrwyr sy'n astudio addysg uwch yng Nghymru'n parhau gydag 83 y cant yn dweud eu bod yn fodlon â'u cwrs. Roedd myfyrwyr pynciau'r GIG yn arbennig o fodlon (87%).

6. Roedd cyfanswm nifer y myfyrwyr a ymatebodd i'r pumed Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol blynyddol wedi cynyddu dros 3,000 eleni i 223,363 o fyfyrwyr, 12,100 ohonynt o Gymru; mae hyn yn rhoi cyfradd ymateb gyffredinol ar gyfer y Deyrnas Unedig o 62 y cant (60% i Gymru). Roedd cyfanswm o 155 o sefydliadau addysg uwch (SAUau) a 117 o golegau addysg bellach (CABau) yn Lloegr wedi cymryd rhan hefyd.

7. Yng Nghymru, bydd myfyrwyr sy'n astudio AU mewn colegau addysg bellach yn cael eu cynnwys ar wahân o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Bydd myfyrwyr rhyddfraint yn cael eu cyflwyno ar wahân y flwyddyn nesaf, a myfyrwyr a ariennir yn uniongyrchol y flwyddyn ganlynol. Bydd ymatebion gan fyfyrwyr ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon a chyrsiau'r GIG ar gael hefyd.

8. Roedd wyth deg saith y cant o fyfyrwyr a oedd yn astudio pynciau'r GIG yng Nghymru'n fodlon ag ansawdd eu cwrs (83% yn achos pob ymatebwr yng Nghymru) ac roedd 72% yn fodlon â'u hasesu a'u hadborth (65% yn achos pob ymatebwr yng Nghymru). Yn ogystal, roedd 85% yn fodlon â'u lleoliadau ymarfer, o gymharu ag 83% o fyfyrwyr yn y pynciau hyn yn y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.
Unwaith eto, mynegwyd y boddhad lleiaf ag asesu ac adborth, er y bu cynnydd o foddhad 63% o fyfyrwyr yn SAUau Cymru yn 2008.

9. Y trothwy ar gyfer cyhoeddi canlyniadau AMC yw 50 y cant ar gyfer sefydliadau ac o leiaf 23 o fyfyrwyr ar gyfer pynciau.

10. Cynhaliwyd yr AMC gan Ipsos MORI. Caiff Unistats ei ddatblygu a'i gynnal gan UCAS a Hotcourses, www.unistats.com.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant cychwynnol athrawon** ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.